# PWYLLGOR CRAFFU
# LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID HINSAWDD

## 11 MAWRTH 2024

**PRESENNOL** Cynghorydd K. Madge (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
K. Davies N. Lewis B.D.J. Phillips G.B. Thomas
Cynghorydd H. Jones yn lle'r Cynghorydd T.A.J. Davies

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
D.C. Evans S. Godfrey-Coles M. Donoghue
Cynghorydd M. Donoghue yn lle'r Cynghorydd T. Higgins

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
- Cynghorydd A. Vaughan Owen, Yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd;
- Cynghorydd E. Thomas, Yr Aelod Cabinet dros Transport, Gwasanaethau Trafnidiaeth.

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
D.W. John, Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol;
R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd;
J. Morgan, Pennaeth Tai;
J. Edwards, Rheolwr Gwella Busnes;
B. Kathrens, Rheolwr Amddiffyn Rhag Llifogydd Ac Amddiffyn yr Arfordir;
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau;
R. D. Williams, Arweinydd Iechyd Cyhoeddus;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

[Noder: Yn ystod camau terfynol ystyried Eitem 6 ar yr Agenda, gohiriwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd am 11.15am oherwydd diffyg annisgwyl yn y rhyngrwyd.]

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell: 10:00yb - 11:15yb**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S. Allen, P. Cooper, J. James, T.A.J. Davies a T. Higgins.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch unrhyw chwip waharddedig.
Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

Codwyd, gan fod yr eitem hon yn eitem agenda sefydlog, y dylid gwneud mwy o waith hyrwyddo i annog cwestiynau cyhoeddus. Bydd Aelodau'r Cabinet yn gweithio gyda'r tîm Cyfathrebu i ystyried hyrwyddo'r meysydd i'w craffu yn unol â Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor.

## 4. ADRODDIAD PERFFORMIAD CWARTER 3 - 2023/24 (01/04/23-31/12/23) YN BRIODOL I'R PWYLLGOR CRAFFU HWN

Cafodd y Pwyllgor adroddiad perfformiad a oedd yn darparu'r cynnydd ar ddiwedd Chwarter 3 2023/24. Fel rhan o'u rôl i graffu ar berfformiad, ystyriodd yr Aelodau y cynnydd ar y camau gweithredu sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn a oedd yn gysylltiedig â'r camau gweithredu a'r mesurau sy'n gysylltiedig â Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 ac amcanion llesiant.

Cyflwynodd yr Aelodau Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Gwasanaethau Cynaliadwyedd a Thrafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith y meysydd yn eu portffolio.

Holwyd ynghylch y canlynol mewn perthynas â'r adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at yr adran gŵynion ar dudalen 2 yr adroddiad. Dywedwyd gan fod y ffigurau oddi ar y targed a oedd rhywbeth y gellid ei wneud i wella'r rhain? Dywedodd y Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol fod nifer o gŵynion yn gymhleth yn eu natur, yn aml yn cymryd mwy o amser i ymchwilio iddynt a fyddai wedyn yn mynd y tu hwnt i'r targed 14 diwrnod. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau bod yr achwynydd yn cael gwybod bob amser am linell amser y gŵyn.

- Cyfeiriwyd at gam gweithredu 16559 - Gweithredu System Rheoli Priffyrdd wedi'i diweddaru i ddarparu polisi archwilio ac atgyweirio seiliedig ar risg. Gofynnwyd a oedd y rhaglen atgyweirio wedi gwella ers gweithredu'r system? Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith fod y system rheoli priffyrdd bresennol wedi'i diweddaru i weithredu'r dull seiliedig ar risg ar gyfer archwilio ac atgyweirio yn unol â'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd sy'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer atgyweiriadau ar y rhwydwaith ffyrdd.

  Mynegwyd pryder fod y targed o 90 diwrnod i atgyweirio diffyg ar y ffordd yn sgil cwyn yn rhy hir a bod angen adolygu hyn gan fod y ffyrdd gwledig yn arbennig yn dioddef. Codwyd sylw ychwanegol i gefnogi y gallai llawer ddigwydd mewn 90 diwrnod a oedd yn ymestyn y risg o atebolrwydd i'r Awdurdod gynyddu hawliadau yswiriant posibl.

- Cyfeiriwyd at nifer y cwynion cam 1 a ddyfynnir ar dudalen 2 yr adroddiad. Mynegwyd siom ynglŷn â'r ffigurau a ddyfynnir - allan o 253 o gŵynion dim ond 161 yr ymdriniwyd â nhw yn unol â'r amserlen. Yn ogystal, o ran cwynion cam 2 – oddi ar y targed, dywedwyd nad oedd y datganiad a ddarparwyd yn weithred adferol - 'nid yw'n bosibl i uwch-swyddogion gwblhau'r ymchwiliad'. Teimlwyd bod hyn yn ffordd arall o ddweud nad oedd digon o adnoddau i reoli'r sefyllfa. Cytunodd y Rheolwr Gwella Busnes nad oedd y data mewn perthynas â chwynion cam 1 yn ddelfrydol, wrth gydnabod bod y galw ar amser swyddogion yn achosi problem yr oedd yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Fel y nodwyd yn gynharach, roedd cwynion cam 2 yn fwy cymhleth gan gymryd mwy o amser i ymchwilio iddynt, ond trafodwyd hyn gyda'r achwynydd.

- Yn ogystal â chydnabod dirywiad parhaus ffyrdd diddosbarth, tynnwyd sylw at 3 chwarter yr adroddiadau a oedd ar y targed a chafodd canmoliaeth ei chyfleu i'r tîm ar y cyflawniad hwn.

- Mewn ymateb i ymholiad a godwyd ynghylch yr arwyddion 20mya, dywedodd y Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol fod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn talu am yr holl gostau o ran y difrod i'r arwyddion 20mya.

- Awgrymwyd y dylid llunio gweithgor trawsbleidiol i ystyried ac adolygu'r terfynau cyflymder o 20mya yn Sir Gaerfyrddin. Teimlwyd y gellid newid llawer o ardaloedd. Mewn ymateb i'r awgrym dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith fod yr Awdurdod ar hyn o bryd yn aros am ganllawiau newydd i'w cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ac ar ôl derbyn y gallai fod yn amser cyfleus i'r Pwyllgor Craffu ystyried ymhellach.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 2023/24.**

## 5. DATBLYGIAD POSIBL ASIANTAETH RHEOLI PLÂU FEWNOL

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth am y datblygiad posibl o Asiantaeth Rheoli Plâu Fewnol.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd, wrth gyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor, roi eu barn ynghylch a ddylai swyddogion baratoi achos busnes manwl fel rhan o'r broses cyn penderfynu ar gyfer datblygu polisi cyn ei gyflwyno i'r Cabinet.

Holwyd ynghylch y canlynol mewn perthynas â'r adroddiad:-

- Rhoddwyd adborth cadarnhaol o ran syniad a chynnwys yr adroddiad, teimlwyd y byddai datblygu gwasanaeth rheoli plâu mewnol yn fuddiol ac yn cael canlyniad cadarnhaol.

- Dywedwyd er nad yw pob cwmni preifat yn ystyried y rhesymau cyfannol ehangach ynghylch pam fod llygod mawr yn broblem, roedd hwn yn faes y gallai'r Cyngor ei gyflawni.

- Cynigiwyd cyflwyno'r achos busnes datblygedig i'r Pwyllgor Craffu i'w ystyried ymhellach. Byddai hyn yn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried y manylion gan gynnwys costau ac adnoddau. Eiliwyd y cynnig hwn.

- Mynegwyd fod angen i'r gwasanaeth a ddarperir gan yr Awdurdod fod yn fwy ymatebol wrth ddatblygu achos busnes yn erbyn unrhyw ddarpariaeth fasnachol a chytunwyd bod y dull cyfannol yn ffactor pwysig.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CABINET:-**

**5.1 fod achos busnes manwl ar gyfer datblygu Asiantaeth Rheoli Plâu fewnol fel rhan o'r broses cyn benderfynu ar gyfer datblygu polisïau yn cael ei greu.**

**5.2 darparu datblygiad yr achos busnes manwl i'r Pwyllgor Craffu i'w ystyried.**

## 6. RHEOLI TRAETHLIN AC ADDASU ARFORDIROL YN SIR GAERFYRDDIN

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar Reoli Traethlin ac Addasu Arfordirol yn Sir Gaerfyrddin er mwyn gwneud sylwadau.

Amlygodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd, er bod yr Aelodau wedi derbyn yr adroddiad ar gyfer craffu drwy e-bost yn ddiweddarach ym mis Hydref a mis Tachwedd y llynedd, cafodd ei roi ar yr agenda ffurfiol ar gyfer sylwadau pellach.

Holwyd ynghylch y canlynol mewn perthynas â'r adroddiad:-

- Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod llythyr wedi'i anfon at y Gweinidog Newid Hinsawdd ar ran y Pwyllgor yn gofyn am gyllid ychwanegol yn yr ymgais i helpu i frwydro yn erbyn glaw a stormydd niweidiol o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.

- Wrth gydnabod bod gan Sir Gaerfyrddin 90km o arfordir i'w reoli, gwnaed nifer o sylwadau mewn perthynas â'r penderfyniadau anodd y bu'n rhaid eu gwneud i wario arian ar amddiffynfeydd. Roedd cydbwyso'r angen am beirianneg galed neu ail-alinio wedi'i reoli yn benderfyniad anodd ac mae tua 2300 o gartrefi preswyl mewn perygl o erydu arfordirol.

- Er mwyn dangos i'r Aelodau y gwaith amddiffyn a oedd ar waith a'r materion sy'n codi, awgrymwyd bod y Pwyllgor yn ystyried trefnu ymweliad safle i weld ardaloedd lle gwnaed gwaith o ran amddiffyn yr arfordir a'r hyn a ystyriwyd yn beryglus wrth aros am waith. Byddai swyddogion yn ystyried safleoedd priodol i'r Pwyllgor ymweld â nhw.

- Cyfeiriwyd at dudalen 4 yr adroddiad.  O ran caffael yr arolwg topograffig o'r arfordir, gofynnwyd a oedd Awdurdodau eraill wedi talu i'r gwaith hwn gael ei wneud neu a oedd yr Awdurdod hwn wedi ei brynu ar ei ben ei hun?  Eglurodd y Rheolwr Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r Arfordir, er bod Canolfan Monitro Arfordirol Cymru yn comisiynu arolwg gwaelodlin, fod yr Awdurdod hwn wedi gofyn am waith ychwanegol yn bennaf oherwydd cymhlethdod ardal y tair afon i sicrhau darpariaeth lawn.

- Cyfeiriwyd at bwynt 6, tudalen 6 o'r adroddiad.  O ran ymgysylltu â thirfeddianwyr a datblygwyr safleoedd diwydiannol a chyn-ddiwydiannol, gofynnwyd a ellid darparu mwy o wybodaeth mewn perthynas â natur yr ymgysylltu â thirfeddianwyr.  Eglurodd y Rheolwr Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r Arfordir fod cyllid wedi ei dderbyn ar gyfer Swyddog Addasu Arfordirol newydd.  Byddai'r rôl hon yn gweithio yn y gymuned, gan gysylltu â'r cymunedau hynny sydd mewn perygl o lifogydd a rhannu pa gamau yr hoffent eu cyflawni a'u gweithredu.

# WEDI AILYMGYNNULL
# PWYLLGOR CRAFFU
# LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID HINSAWDD

## 22 MAWRTH 2024

**PRESENNOL** Cynghorydd K. Madge (Cadeirydd)

**Cynghorwyr:**
S.M. Allen D.C. Evans J.D. James N. Lewis
Cynghorydd M. Donoghue – yn lle'r Cynghorydd T. Higgins
Cynghorydd H. Jones – yn lle'r Cynghorydd T.A.J. Davies

**Hefyd yn bresennol:**
Cynghorydd A. Vaughan Owen, Yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd;
Cynghorydd E. Thomas, Yr Aelod Cabinet dros Transport, Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith.

**Hefyd yn bresennol:**
R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd
B. Kathrens, Rheolwr Amddiffyn Rhag Llifogydd Ac Amddiffyn yr Arfordir
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod: 10:00 - 10:30 yb**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Davies, S. Godfrey-Coles, T. Higgins a G.B. Thomas.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch unrhyw chwip waharddedig.
Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

## 3. RHEOLI TRAETHLIN AC ADDASU ARFORDIROL YN SIR GAERFYRDDIN

Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Cadeirydd, yn ei gyfarfod ar 13 Mawrth 2024, ei fod wedi gohirio ystyried y mater uchod oherwydd anawsterau technegol, ac aildrefnwyd y cyfarfod ar gyfer y diwrnod hwnnw er mwyn i'r Pwyllgor barhau ei drafodaethau ynghylch y Cynllun Rheoli Traethlin ac Addasu Arfordirol yn Sir Gaerfyrddin ynghyd â'r eitemau oedd yn weddill ar yr agenda.

Codwyd y sylwadau/ymholiadau canlynol ynghylch yr adroddiad:

- Cyfeiriwyd at yr 87 o gamau gweithredu o fewn y cynllun rheoli traethlin sy'n ymwneud ag Arfordir Sir Gaerfyrddin, yr Hendy i Bentywyn. Cadarnhawyd eu bod yn cael eu craffu gan Grwp Peirianneg Arfordirol Abertawe a Bae Caerfyrddin sydd, yn ei dro, yn adroddi Gyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru.

- Cadarnhawyd y byddai unrhyw waith amddiffyn rhag llifogydd sydd i'w wneud ar yr arfordir ger arfordir Sir Gaerfyrddin yn destun asesiad effaith llawn cyn iddynt ddechrau.

- O ran effaith adeiladu ar orlifdiroedd / ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y byddai unrhyw ddatblygiad o'r fath yn destun darpariaethau Nodyn Cyngor Technegol Rhif 15 Llywodraeth Cymru: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Roedd y nodyn hwnnw'n cael ei adolygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru, ac mae disgwyl cyhoeddiad yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Yn dilyn cyhoeddi, byddai ei ddarpariaethau yn cael eu bwydo i'r cynllun datblygu lleol.

- O ran yr effaith bosibl y gallai carthu tywod oddi ar y glannau ei chael ar yr arfordir, cadarnhawyd mai'r cyfrifoldeb dros roi trwyddedau carthu oedd Cyfoeth Naturiol Cymru. Gallai'r Cyngor, fodd bynnag, gyflwyno sylwadau i'r corff hwnnw mewn perthynas ag unrhyw garthu yr ystyriai a allai effeithio ar arfordir y Sir.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**3.1 Dderbyn adroddiad Rheoli Traethlin ac Addasu Arfordirol yn Sir Gaerfyrddin.**

**3.2 Bod y Pwyllgor yn cynnal ymweliadau safle i weld gwaith amddiffyn arfordirol a wneir yn Sir Gaerfyrddin ac ardaloedd yr ystyrir eu bod yn beryglus ac yn aros am waith.**

## 4. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Ystyriodd y Pwyllgor y rhestr o eitemau i gael eu cynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf oedd i'w gynnal ar 22 Ebrill 2024 a rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor wneud cais am unrhyw wybodaeth benodol yr hoffai'r Aelodau ei chynnwys yn yr adroddiadau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gytuno ar y rhestr o'r eitemau i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 22 Ebrill 2024.**

## 5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 30 IONAWR 2024

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2024 fel cofnod cywir.**

_________________________ ___________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**